**2026**

**Cymraeg i Oedolion: Lefel Ganolradd** ***B1***
***Welsh for Adults: Intermediate Level***

**Gwybodaeth i Ymgeiswyr**
***Information for Candidates***

Mae CBAC yn aelod llawn o ALTE (Cymdeithas i Brofwyr Ieithoedd yn Ewrop). [www.alte.org](http://www.alte.org)

*WJEC is a full member of ALTE (Association of Language Testers in Europe). [www.alte.org](http://www.alte.org)*

ALTE Q231

**Defnyddio'r Gymraeg: Canolradd 2026**
**English below – [click here.]**

**Beth yw Defnyddio'r Gymraeg: Canolradd?**
Arholiad wedi fwriadu'n bennaf ar gyfer oedolion sy'n dysgu Cymraeg ar lefel ganolig. Does dim *rhaid* sefyll arholiad er mwyn dysgu Cymraeg, ond mae'n rhoi rhywbeth i chi anelu ato ac yn eich helpu i wella'ch sgiliau iaith. Does dim rhaid sefyll arholiad arall cyn gwneud Defnyddio'r Gymraeg: Canolradd.

**Beth yw'r lefel?**
Dyma'r drydedd lefel y gellir sefyll arholiad arni. Mae'r arholiad yma'n addas i ymgeiswyr sydd wedi gorffen Cwrs Canolradd neu sydd ar lefel debyg. Mae'r cymhwyster hwn yn cyfateb i lefel B1 yn fframwaith Ewrop (CEFR).

**Ydy hi'n bosib sefyll y prawf Siarad yn unig?**
Ydy. Byddwch chi'n cael datganiad cyrhaeddiad, nid cymhwyster llawn. Pan fyddwch chi'n cofrestru gyda'ch canolfan arholi, rhaid i chi nodi mai dim ond y prawf Siarad dych chi eisiau'i wneud. Fyddwch chi ddim yn gallu newid eich cofrestriad yn hwyrach. Os dych chi *wedi* sefyll y prawf Siarad ar y lefel hon yn barod, mae'n bosib gwneud y profion eraill (Darllen, Ysgrifennu a Gwrando) er mwyn cwblhau'r cymhwyster. Dim ond am un flwyddyn dych chi'n gallu cario marc y prawf Siarad. Os dych chi eisiau gwneud hyn, rhaid i chi roi gwybod i'ch canolfan arholi pan fyddwch chi'n cofrestru.

**Pryd bydd hyn yn digwydd?**
Bydd hi'n bosibl sefyll yr arholiad ar y dyddiad yma:
Dydd Gwener 12 Mehefin 2026

**Erbyn pryd mae'n rhaid cofrestru?**
Ar gyfer arholiadau'r haf, rhaid cofrestru erbyn 27 Chwefror 2026.
**Fydd cofrestriadau hwyr ddim yn cael eu derbyn.**

**Faint mae'r arholiad yn ei gostio?**
Cysylltwch â'ch darparwr Dysgu Cymraeg lleol i gael gwybodaeth am y ffi.

**Sut ydw i'n cofrestru?**
Rhaid i bob ymgeisydd gofrestru gyda eich darparwr Dysgu Cymraeg. Chi sy'n gyfrifol am hyn, nid eich tiwtor. Ni ellir cofrestru'n uniongyrchol gyda CBAC. Mae'r cyfeiriadau cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

Ni chaniateir i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf sefyll yr arholiad hwn. Ni chaniateir i ymgeiswyr sydd wedi derbyn rhan helaeth o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg sefyll yr arholiad hwn, os nad ydyn nhw wedi gadael yr ysgol ers o leiaf pum mlynedd.

**Ni all CBAC na'r canolfannau arholi warantu y bydd yr arholiad ar gael yn eich ardal chi.**

**Braslun o'r Arholiad**

Mae sawl rhan i'r arholiad, yn profi'r sgiliau iaith dych chi'n eu dysgu yn eich dosbarth Cymraeg.

1. **Gwrando a Deall** 15%

   i. Deialog
   ii. Bwletin Newyddion

2. **Siarad**

   i. Tasg Sgwrsio 15%

   ***Prawf Siarad:*** 40%
   ii. Trafod Pwnc
   iii. Sgwrs Gyffredinol

3. **Darllen a Deall, a Llenwi Bylchau** 15%

   i. Erthygl
   ii. Negeseuon e-bost
   iii. Llenwi Bylchau

4. **Ysgrifennu** 15%

   i. Llythyr
   ii. Llenwi Ffurflen

**Rhagor o fanylion**

1. **Gwrando** 15%

Mae 2 ran i'r prawf yma. Byddwch chi'n eu clywed 3 gwaith.

i. **Deialog**
Rhaid i chi wrando ar ddeialog ac ateb cwestiynau'n seiliedig arni.

ii. **Bwletin Newyddion**
Rhaid i chi wrando ar fwletin newyddion ac ateb cwestiynau'n seiliedig arno.

Rhaid i chi ateb y cwestiynau yn Gymraeg. Fyddwch chi ddim yn colli marciau am gamgymeriadau, ond rhaid i chi ddangos eich bod chi wedi deall yr eitemau.

2.i **Siarad (Tasg Sgwrsio)** 15%

Rhaid i chi recordio un sgwrs gyda rhywun sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, (nid eich tiwtor). Dylai'r sgwrs bara tua 5 munud. Cyflwynwch eich hun a'r person arall ar y dechrau, yna rhaid i **chi** arwain y sgwrs, **gofyn y cwestiynau ac ymateb i beth mae'r person arall yn ei ddweud**. Dych chi'n gallu holi'r person am unrhyw beth, e.e. gwaith, bywyd cymdeithasol, diddordebau, yr ardal, teulu. Bydd y marcwyr yn asesu eich gallu i ryngweithio, i holi'r person arall, a chywirdeb eich iaith.

Rhaid i chi recordio'r sgwrs ar ffurf electronig (argymhellir fformat mp3). Os dych chi ddim yn siŵr sut i wneud hyn, cysylltwch â'ch canolfan arholi.

**Anfonwch eich tasg sgwrsio i'ch canolfan arholi.**
**Peidiwch anfon eich tasgau'n uniongyrchol i CBAC.**

Peidiwch stopio'r sgwrs ac ailddechrau – dylai fod yn ddi-dor.
Peidiwch sgriptio'r sgwrs ymlaen llaw. Byddwch chi'n colli marciau drwy wneud hynny.

Rhaid i chi anfon ffeil i'ch canolfan arholi erbyn 1 Mai 2026.

2.ii **Prawf Siarad** 40%

Fel arfer, mae'r prawf yn para tua 20-25 munud.
Bydd y prawf yn cael ei recordio ac yn cael ei asesu'n allanol. Peidiwch â chofrestru os nad ydych chi'n fodlon cael eich recordio yn y modd hwn.

Mae'n bosib y bydd y prawf Siarad yn cael ei gynnal ar-lein. Os felly, bydd y prawf yn cael ei recordio ar lwyfan addysgu arferol eich darparwr (e.e. Zoom neu MS Teams). Eich canolfan arholi fydd yn penderfynu sut bydd eich prawf Siarad yn cael ei gynnal.

**Prawf Siarad 'Wyneb-yn-wyneb'**
Byddwch chi'n cael taflen yr ymgeisydd cyn dechrau'r prawf ac yn cael 30 munud i baratoi un o'r pynciau i'w trafod. Mae hi'n bosib mynd â thaflen yr ymgeisydd i mewn i'r ystafell gyfweld, ond peidiwch â cheisio sgriptio pethau i'w dweud.

**Prawf Siarad 'Ar-lein'**
Byddwch chi'n derbyn 'taflen yr ymgeisydd' gan eich canolfan arholi 30 munud cyn amser penodedig y prawf. Cyn dechrau'r prawf ar-lein, bydd rhaid i chi ddangos ID ffotograffig i'r cyfwelydd, er mwyn cadarnhau pwy ydych chi.

Mae 2 ran i'r prawf Siarad. Bydd y marcwyr yn asesu eich gallu i siarad yn gywir, amrywio amserau, i ryngweithio â'r cyfwelydd, priodoldeb y sgwrs, ynganu, a'r gallu i estyn ymatebion.

ii. **Trafod pwnc**
Bydd y cyfwelydd yn gofyn i chi pa bwnc dych chi wedi'i ddewis, a bydd yn sgwrsio â chi am y pwnc am tua 5 munud.

iii. **Sgwrs gyffredinol**
Bydd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau i chi am eich cefndir chi, gwaith, teulu, diddordebau, eich profiadau'n dysgu Cymraeg, gwyliau neu unrhyw bwnc sy'n codi yn ystod y sgwrs.

Ceir manylion llawn am sut y cymhwysir y meini prawf asesu yn y fanyleb, sydd ar wefan CBAC: www.cbac.co.uk, (gw. dan 'Cymraeg i Oedolion Canolradd').

3. **Darllen a Llenwi Bylchau** 15%

Mae 3 rhan i'r prawf yma, sy'n para 60 munud:

i. **Erthygl**
Rhaid i chi ddarllen erthygl ac ateb cwestiynau a fydd yn crynhoi'r prif bwyntiau.

ii. **Negeseuon e-bost**
Rhaid i chi ddarllen 2 neges ar ffurf e-bost. Bydd cwestiynau amlddewis i ddangos eich bod chi wedi deall y darnau a bwriadau'r ysgrifenwyr.

iii. **Llenwi Bylchau**
Rhaid i chi lenwi bylchau mewn darn neu ddeialog estynedig.

4. **Ysgrifennu** 15%

i. **Llythyr**
Rhaid i chi ysgrifennu llythyr tua 100 o eiriau o hyd ar destun penodol. Mae dewis o destunau.

ii. **Llenwi Ffurflen**
Rhaid i chi lenwi ffurflen, e.e. holiadur, yn gofyn am tua 150 o eiriau.

Asesir eich gallu:

- i ysgrifennu'n gywir
- i ddefnyddio ystod o batrymau a geirfa
- i gyflawni'r dasg

**Pryd mae'r arholiad?**

Cynhelir y profion i gyd ar ddiwrnod penodol. Ni chaniateir i ymgeiswyr sefyll yr arholiad ar amserau gwahanol i'r rhai a nodir.

Bydd y papurau yn y drefn yma, yn dechrau am 9.15 y bore:

| | | |
|---|---|---|
| Darllen a Deall, a Llenwi Bylchau | | 60 munud |
| Gwrando a Deall | tua | 50 munud |
| Ysgrifennu | | 75 munud |
| Y Prawf Siarad | tua | 20-25 munud |

Cynhelir y Prawf Siarad ar amser penodol yn y prynhawn, ar ôl toriad am ginio. Bydd eich canolfan arholi'n cadarnhau lleoliad yr arholiad ac amcan o amser eich prawf Siarad cyn yr arholiad ei hun.

**Canlyniadau**

Byddwch chi'n cael eich marciau ar gyfer pob prawf tua wyth wythnos wedi diwrnod sefyll yr arholiad, ac yn derbyn eich tystysgrif tua diwedd mis Medi. Os byddwch chi'n sefyll y prawf Siarad yn unig, byddwch chi'n derbyn datganiad cyrhaeddiad. I lwyddo, rhaid i chi gael 60% o'r marciau posibl fel arfer; i gael Rhagoriaeth, rhaid i chi gael 80% o'r marciau posibl. Mae'r union ffiniau'n cael eu pennu mewn cyfarfod dyfarnu.

**Manyleb lawn a phapurau enghreifftiol**

Braslun o'r arholiad sy yn y llyfryn hwn; ceir y manylion llawn yn y fanyleb. Mae'r fanyleb a phapurau enghreifftiol ar gael ar wefan CBAC, gw. www.cbac.co.uk dan 'Cymraeg i Oedolion Canolradd'.

| **Dyddiad yr arholiad** | **Dyddiad cau cofrestru** |
|---|---|
| Dydd Gwener 12 Mehefin 2026 | 27 Chwefror 2026 |

**Diogelu data**

Os byddwch chi'n cofrestru i sefyll arholiad gyda'ch darparwr 'Dysgu Cymraeg', bydd gofyn i chi ddarparu peth data personol. Rhennir eich data cofrestru gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Anfonir peth o'r data hyn, sef enwau blaen, cyfenw, dyddiad geni a rhyw, gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i CBAC. Mae'n angenrheidiol rhannu eich data personol yn y modd hwn er mwyn eich galluogi i sefyll yr arholiad a derbyn dyfarniad. Mae gwybodaeth am sut mae CBAC yn prosesu eich data personol ar gael yma: www.cbac.co.uk dan Amdanom ni > Polisïau > Hysbyseb Preifatrwydd. Byddwch ar ddeall na fydd eich manylion cyswllt yn cael eu rhannu â CBAC a dylid cyfeirio unrhyw ymholiad sydd gennych mewn perthynas â'r arholiad i'ch canolfan arholi, h.y. eich darparwr 'Dysgu Cymraeg'.

**Anghenion Arbennig**

Os oes unrhyw anghenion arbennig gyda chi, a allai effeithio ar fynediad teg i'r arholiad, e.e. trafferthion clyw/golwg neu anghenion corfforol, rhaid rhoi gwybod i'r ganolfan arholi erbyn y dyddiad cau cofrestru. Mae gwybodaeth am yr addasiadau posib ar gael yn y ddogfen 'Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol' ar wefan CBAC (yn Gymraeg) – www.cbac.co.uk.

**Defnyddio'r Gymraeg: Canolradd 2026**

**What is Defnyddio'r Gymraeg: Canolradd?**
An exam intended primarily for adults who are learning Welsh at an intermediate level. You don't *have* to sit an exam to learn Welsh, but it does give you something to aim for, and will help you improve your language skills. You don't have to sit another exam before taking Defnyddio'r Gymraeg: Canolradd.

**What is the level?**
This is the third level at which you can sit an exam. This exam is suitable for learners who have finished Cwrs Canolradd or who are on a similar level. This qualification corresponds to B1 level in the European framework (CEFR).

**Is it possible to take the Speaking test only?**
Yes. You'll receive a statement of attainment, not a full qualification. When you register with your exam centre, you must let them know that you wish to take the Speaking test only. You will not be able change the registration later. If you *have* taken the Speaking test at this level already, it's possible to take the other tests (Reading, Writing and Listening) in order to complete the qualification. Speaking test marks may be carried forward for one year only. If you wish to do this, you must let your exam centre know when you register.

**When will this take place?**
It will be possible to sit the exam on this date:
Friday 12 June 2026

**By when do I need to register?**
For the summer exams, you must register by 27 February 2026.
**Late registrations will not be accepted.**

**How much does the exam cost?**
Contact your local Learn Welsh provider for information about the fee.

**How do I register?**
All candidates must register with their ‘Learn Welsh’ provider. You are responsible for this, not your tutor. You can not register directly with WJEC. The contact details are at the end of this document.

Candidates who speak Welsh as a first language are not permitted to sit this exam.  Candidates who have received most of their education through the medium of Welsh are not permitted to sit this exam, unless they have left school for at least five years.

**Neither WJEC nor exam centres can guarantee that the exam will be available in your area.**

**An Outline of the Examination**

There are several parts to the exam, testing the language skills you are learning in your Welsh class.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Listening** | 15% |
| | i. Dialogue | |
| | ii. News bulletin | |
| 2. | **Speaking** | |
| | i. Conversation Task | 15% |
| | **Speaking Test:** | 40% |
| | i. Topic discussion | |
| | ii. General conversation | |
| 3. | **Reading and Gap-filling** | 15% |
| | i. Article | |
| | ii. E-mail messages | |
| | iii. Gap filling | |
| 4. | **Writing** | 15% |
| | i. Letter | |
| | ii. Form filling | |

**More details**

1. **Listening** 15%

There are 2 parts to this test. You'll hear both three times.

i. **Dialogue**
You must listen to a dialogue and answer questions based on it.

ii. **News bulletin**
You must listen to a news bulletin and answer questions based on it.

You must answer the questions in Welsh. You won't lose marks for errors, but you must show that you've understood the items.

2.i **Speaking (Conversation Task)** 15%

You must record a conversation with someone who speaks Welsh fluently (not your tutor). The conversation should last around 5 minutes. Introduce yourself and the other person at the start, then **you** must lead the conversation, **asking questions and responding to what the other person says.** You may ask the other person about anything, e.g. work, social life, interests, the area, family. The markers will assess your ability to interact, to ask questions and the accuracy of your language.

You must record the conversation in an electronic format (mp3 is recommended). If you're unsure how to do this, contact your examination centre.

**Send your conversation task to your examination centre.**
**Do not send your task directly to WJEC.**

Do not stop the conversation and restart – it should be uninterrupted. Do not script the conversation beforehand. You will lose marks if you do this.

Send your file to your examination centre by 1 May 2026.

## 2.ii **Speaking Test** 40%

The test usually lasts around 20-25 minutes.
The test will be recorded and assessed externally. Do not register unless you are willing to be recorded in this way.

The speaking test may be held online. If so, it will be recorded using the teaching platform used by your provider (e.g. Zoom or MS Teams). Your exam centre will decide how the Speaking test will be held.

**'Face-to-face' Speaking test**
You will be given the candidate's sheet at the start of the test and have 30 minutes to prepare one of the discussion topics. It's possible to take the candidate's sheet into the interview room, but do not try to script what you wish to say.

**'On-line' Speaking test**
You will receive the candidate's sheet from your exam centre 30 minutes before the specified time of the test.
Before starting the online speaking test, you will have to show the interviewer photographic ID to confirm your identity.

There are 2 parts to the Speaking test.

ii. **Topic discussion**
The interviewer will ask which topic you've chosen, and will talk to you about the topic for around 5 minutes.

iii. **General conversation**
The interviewer will ask you questions about your background, work, family, interests, experiences learning Welsh, holidays or any topic which crops up during the course of the conversation.

You will be assessed on your ability:

- to speak accurately
- to use a range of patterns and vocabulary
- to respond appropriately
- to pronounce Welsh
- to extend responses

Full details about how the assessment criteria are applied are available in the specification which is on the WJEC website: www.wjec.co.uk (see under 'Welsh for Adults Intermediate').

3. **Reading and Gap-filling** 15%

i. **Article**
You must read an article and answer questions which summarise the main points.

ii. **E-mail messages**
You must read two e-mail messages. There will be multiple-choice questions to test if you've understood the messages and the writers' intentions.

iii. **Gap-filling**
You must fill in the gaps in a text or extended dialogue.

4. **Writing** 15%

i. **Letter**
You must write a letter of around 100 words on a specific topic. There is a choice of topics.

ii. **Form filling**
You must fill in a form, e.g. a questionnaire, of around 150 words.

You will be assessed on your ability:

- to write accurately
- to use a range of patterns and vocabulary
- to fulfil the task

**When is the exam?**

The tests will all be held on one specific date. No candidate will be allowed to sit the exam at times other than those noted.

The papers will be in this order, starting at 9.15am:

| | | |
|---|---|---|
| Reading Comprehension and Gap-filling | | 60 minutes |
| Listening Comprehension | approx. | 50 minutes |
| Writing | | 75 minutes |
| | | |
| Speaking Test | approx. | 20-25 minutes |

The Speaking Test will be held at a designated time in the afternoon, after a lunch break. Your centre will confirm the location of the exam and time of your speaking test before the exam itself.

**Results**

You will receive your marks for each test approximately eight weeks after sitting the examination, and will receive a certificate usually at the end of September. If you only take the Speaking test, you will receive a statement of attainment. To pass, you usually need to attain 60% of the possible marks; to attain Distinction, you need to get 80% of the possible marks. The exact grade boundaries are decided at an award meeting.

**Full specification and example papers**

This booklet gives an outline of the exam. Full details are given in the specification for tutors. Example papers are also available on the WJEC website, see www.wjec.co.uk under 'Welsh for Adults Intermediate'.

| **Exam date** | **Registration closing date** |
|---|---|
| Friday 12 June 2026 | 27 February 2026 |

## Data protection

If you register to take an exam with your 'Learn Welsh' provider, you will be asked to provide certain personal data. Your registration data will be shared with the National Centre for Learning Welsh. Some of these data, i.e. forenames, surname, date of birth and gender, will be sent by the National Centre for Learning Welsh to WJEC.  It is necessary for your personal data to be shared in this way in order to facilitate your taking the exam and receiving an award. Information about how WJEC processes your personal data is available here: www.wjec.co.uk under About us > Policies > Privacy Notice.  Please be aware that your contact details will *not* be shared with WJEC and any queries you have in relation to the exam should be directed to your exam centre, i.e. your 'Learn Welsh' provider.

## Special Requirements

If you have any special requirements, which may affect fair access to the exam, e.g. hearing or vision impairment, or physical requirements, you must inform your exam centre by the registration date.  Information about the possible adaptations is available in the document 'Access Arrangements and Reasonable Adjustments' on the JCQ website (in English) – www.jcq.org.uk.

**Manylion Cyswllt Canolfannau Arholi**
***Exam Centre Contact Details***

**1. Abertawe, Nedd, Port Talbot**
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe
Academi Hywel Teifi
Adeilad Talbot
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
ABERTAWE SA2 8PP

dysgucymraeg@abertawe.ac.uk
Ffôn: 01792 602070
*Rhif canolfan arholi: 00501*

**Swansea, Neath, Port Talbot**
Learn Welsh Swansea Bay Region
Academi Hywel Teifi
Talbot Building
Swansea University
Singleton Park
SWANSEA SA2 8PP

learnwelsh@swansea.ac.uk
Telephone: 01792 602070
*Exam centre number: 00501*

**2. Caerdydd**
Dysgu Cymraeg Caerdydd
Ysgol y Gymraeg
Prifysgol Caerdydd
Adeilad John Percival
Rhodfa Colum
CAERDYDD CF10 3EU

info@learnwelsh.co.uk
Ffôn: 029 2087 4710
*Rhif canolfan arholi: 00502*

**Cardiff**
Learn Welsh Cardiff
School of Welsh
Cardiff University
John Percival Building
Colum Drive
CARDIFF CF10 3EU

info@learnwelsh.co.uk
Telephone: 029 2087 4710
*Exam centre number: 00502*

**3. Ceredigion, Powys a Sir Gâr**

Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Prifysgol Aberystwyth
Adeilad yr Arglwydd Milford
Campws Gogerddan
ABERYSTWYTH
Ceredigion SY23 3EE

dysgucymraeg@aber.ac.uk
Ffôn: 0800 876 6975
*Rhif canolfan arholi: 00503*

**Ceredigion, Powys and Carmarthenshire**
Learn Welsh Ceredigion, Powys and Carmarthenshire
Aberystwyth University
Lord Milford Building
Gogerddan Campus
ABERYSTWYTH
Ceredigion SY23 3EE

learnwelsh@aber.ac.uk
Telephone: 0800 876 6975
*Exam centre number: 00503*

**4. Gogledd Orllewin Cymru**
Dysgu Cymraeg – Gogledd Orllewin
Prifysgol Bangor
Stryd y Deon
BANGOR
Gwynedd LL57 1UT

sam.jones@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 382504
*Rhif canolfan arholi: 00504*

**North West Wales**
Learn Welsh – North West
Bangor University
Dean Street
BANGOR
Gwynedd LL57 1UT

sam.jones@bangor.ac.uk
Telephone: 01248 382504
*Exam centre number: 00504*

**5. Gwent**
Dysgu Cymraeg Gwent
Coleg Gwent
Campws Crosskeys
Heol Risca
CROSSKEYS
Caerffili NP11 7ZA

welsh@coleggwent.ac.uk
Ffôn: 01495 333710
*Rhif canolfan arholi: 00505*

**Gwent**
Learn Welsh Gwent
Coleg Gwent
Crosskeys Campus
Risca Road
CROSSKEYS
Caerphilly NP11 7ZA

welsh@coleggwent.ac.uk
Telephone: 01495 333710
*Exam centre number: 00505*

**6. Morgannwg**
Dysgu Cymraeg Morgannwg
Prifysgol De Cymru
403, Bloc G
Trefforest
PONTYPRIDD CF37 1DL

katy.brown@decymru.ac.uk
Ffôn: 01443 483600
*Rhif canolfan arholi: 00506*

**Glamorgan**
Learn Welsh Glamorgan
University of South Wales
403, Bloc G
Treforest
PONTYPRIDD CF37 1DL

katy.brown@decymru.ac.uk
Telephone: 01443 483600
*Exam centre number: 00506*

**7. Sir Benfro**
Dysgu Cymraeg Sir Benfro
Canolfan Gymunedol Bloomfield
Redstone Road
ARBERTH
Sir Benfro
SA67 7ES

Ffôn: 01437 770180
Dawn.Bowen@pembrokeshire.gov.uk
*Rhif canolfan arholi: 00507*

**Pembrokeshire**
Learn Welsh Pembrokeshire
Bloomfield Community Centre
Redstone Road
NARBERTH
Pembrokeshire
SA67 7ES

Tel: 01437 770180
Dawn.Bowen@pembrokeshire.gov.uk
*Exam centre number: 00507*

**8. Bro Morgannwg**
Dysgu Cymraeg y Fro
Canolfan Ddysgu Palmerston
Cilgant Cadog
Y BARRI CF63 2NT

Ffôn: 01446 730402
learnwelsh@valeofglamorgan.gov.uk
*Rhif canolfan arholi: 00508*

**Vale of Glamorgan**
Learn Welsh the Vale
Palmerston Learning Centre
Cadoc Crescent
BARRY CF63 2NT

Tel: 01446 730402
learnwelsh@valeofglamorgan.gov.uk
*Exam centre number: 00508*

**9. Gogledd Ddwyrain Cymru**
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain
Coleg Cambria
Ffordd Parc y Gelli
WRECSAM LL12 7AB

Ffôn: 01978 267596
learncymraeg@cambria.ac.uk
*Rhif canolfan arholi: 00509*

**North East Wales**
Learn Welsh North East
Coleg Cambria
Grove Park Road
WREXHAM LL12 7AB

Telephone: 01978 267596
learncymraeg@cambria.ac.uk
*Exam centre number: 00509*